

# USS EMPLOYER CONSULTATION

Annwyl cydweithiwr

## Hysbysiad am ymgynghoriad statudol gan gyflogwyr mewn perthynas â Chynllun Blwydd-dâl y Prifysgolion

Hysbysiad ffurfiol yw'r llythyr hwn am ymgynghoriad statudol gyda chi a'ch aelodau mewn perthynas â Chynllun Blwydd-dâl y Prifysgolion (USS). Ynghyd â'r daflen amgaeedig, mae'n cynnwys manylion am newidiadau arfaethedig i USS. Cofiwch ddarllen y ddwy ddogfen yn ofalus, gan y bydd hyn yn effeithio ar eich aelodau, ac y byddwch, efallai, am ymateb i'r ymgynghoriad.

### Crynodeb o'r newidiadau arfaethedig

- Cyfraniadau'r aelodau i godi o 8% i 8.8% o'r cyflog o 1 Ebrill 2019 ymlaen
- Codiadau pellach i gyfraniadau'r aelodau i'w cyflwyno'n raddol ar 1 Hydref 2019 ac 1 Ebrill 2020
- Byddai cyfraniadau'r cyflogwr hefyd yn codi ar yr un dyddiadau
- Byddai cyfatebiad y cyflogwr yn cael ei dynnu ymaith o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Byddai aelodau a ddewisodd dalu cyfraniadau cyfatebol o 1% yn parhau i wneud hynny, oni fyddant yn dewis rhoi'r gorau i dalu trwy My USS
- Byddai 8% o gyfraniadau'r aelodau o gyflog uwchlaw'r trothwy cyflog yn parhau i gael eu cynilo yn Adeiladwr Buddsoddi USS, gyda'r swm dros ben yn cynnal buddion Adeiladwr Incwm Ymdeol USS.

### Cefndir

Ar ddydd Gwener 27 Ebrill 2018, tynnodd Cyd-Bwyllgor Trafod (JNC) USS y cynigion buddion y penderfynodd arno ym mis Ionawr 2018 yn ôl (<https://www.uss.co.uk/withdrawn-changes>). O'r herwydd, ni fydd y cyflogwyr bellach yn ymgynghori ag aelodau ar y cynigion hynny. Fodd bynnag, nid yw'r JNC eto wedi penderfynu ar unrhyw gynigion amgen.

Yn hytrach, sefydlwyd Panel Arbenigwyr ar y Cyd (JEP) gan Universities UK (UUK) ac Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU) i asesu prisiad 2017. Mae ymddiriedolwr USS yn ymwneud yn adeiladol â'r JEP, fydd yn debyg o adrodd yn ôl i'r ddwy ochr ym mis Medi 2018. I ddod i wybod mwy am y JEP, ewch at

<http://www.ussjep.org.uk>.

### Y prisiad a chyllido USS gyda chyfraniadau uwch

Mae rheidrwydd statudol ar ymddiriedolwr USS i gwblhau prisiad 2017 ac, wrth wneud hynny, rhaid iddo allu dangos i'r Rheoleiddiwr Pensiynau fod y cynllun yn gynaliadwy: fod digon o arian ar gael i dalu'r pensiynau a addawyd, neu fod cynllun credadwy ar gael i adennill unrhyw ddiffyg. Rhaid i'r ymddiriedolwr hefyd ateb gofynion cyllido addewidion am bensiynau yn y dyfodol.

Ar sail asesiad helaeth, ac yn dilyn trafodaethau gyda'r cyflogwyr trwy UUK, daeth yr ymddiriedolwr i'r casgliad fod y gyfradd gyfraniadau gyfun (sydd ei hangen i barhau â'r lefel bresennol o fuddion yn y dyfodol a gwneud iawn am y diffyg mewn cyllido am bensiynau a enillwyd eisoes) wedi codi o 26% o gyflogau (rhaniad 8% aelodau/18% cyflogwr) i 37.4%.

### 'Rhannu cost'

Dan ddarpariaethau rhannu cost rheolau'r cynllun, mae unrhyw godiad angenrheidiol i'r gyfradd gyfraniadau (na ellir fel arall ymdrin ag ef gan benderfyniad y JNC ar newidiadau i fuddion a/neu gyfraniadau) yn cael ei rannu 35:65 rhwng aelodau a chyflogwyr yn y drefn honno.

Cafodd y broses 'rhannu cost' ddiodyn hon (Rheolau 76.4-8), y mae'n rhaid i'r ymddiriedolwr ei dilyn, ei chyflwyno trwy'r JNC yn 2011 (a'i diwygio yn 2014) ar gais UUK ac UCU (trwy'r JNC) fel cam wrth gefn pe na bai'r JNC yn dod i benderfyniad ar newidiadau i fuddion a/neu gyfraniadau.

Mae mwy o fanylion ar 'rannu cost' a sut y mae'n effeithio ar y cynllun i'w cael yn y daflen amgaeedig. Gallwch gael mwy o wybodaeth ar [www.ussconsultation2018.co.uk](http://www.ussconsultation2018.co.uk) o 3 Medi ymlaen.

I ymateb i'r ymgynghoriad ar ran eich aelodau, ysgrifennwch at berson cyswllt y cyflogwr perthnasol.

### **Atebion i'ch cwestiynau:**

#### **Â phwy yr ydych yn ymgynghori?**

Yr ydym yn mynd y tu hwnt i'n rheidrwydd cyfreithiol i ymgynghori â chynrychiolwyr aelodau yn unig ac yn ymgynghori â chyrrff cynrychioli, holl aelodau gweithredol USS a phob gweithiwr sy'n gymwys i ymuno â'r cynllun.

#### **Ar beth yr ymgynghorir â mi?**

Yn y daflen amgaeedig, cewch wybodaeth lawn am destun yr ymgynghoriad. Mewn ymateb, gallwch roi unrhyw sylwadau a ddymunwch (gweler isod am sut i wneud hyn). Bydd unrhyw sylwadau a wnewch yn cael eu darllen a'u hystyried gan y cyflogwr perthnasol a chan yr ymddiriedolwr.

#### **Pryd mae'r ymgynghoriad yn cychwyn ac yn gorffen?**

Bydd yr ymgynghoriad yn cychwyn ar 3 Medi 2018, gan gau 60 diwrnod yn ddiweddarach ar 2 Tachwedd 2018 (rhaid derbyn ymatebion erbyn 5:00pm).

#### **Lle caf i fwy o wybodaeth am y newidiadau arfaethedig ac ymateb iddynt?**

Fe gewch fwy o wybodaeth ar [www.ussconsultation2018.co.uk](http://www.ussconsultation2018.co.uk), o 3 Medi 2018 ymlaen. Gallwch hefyd gyrchu adnoddau, megis Cwestiynau Cyffredin, geirfa termau a darluniad o'r modd y byddai unrhyw newidiadau yn effeithio ar gyfraniad eich aelodau. Bydd gwybodaeth statudol hefyd ar gael yn Gymraeg (mae fformatiau braille a phrint bras ar gael o wneud cais).

#### **Alla i gael mwy o gefndir am y modd mae USS yn cael ei gyllido?**

Ewch at wefan USS i gael gwybodaeth am y prisiad a sefyllfa gyllido'r cynllun: [www.uss.co.uk/how-uss-is-run/valuation](http://www.uss.co.uk/how-uss-is-run/valuation).